# Cynnwys

Rhaglen 2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 6
5 - Archwiliad Manwl yr Asiantaeth Safonau bwyd ar Drefniadadu Cyngor Gwynedd ar gyfer Gorfodi Deddf Diogelu Bwyd 10
6 - Diweddariad Gwasanaethau Bws yn Ardal Arfon 19
7 - Blaen Raglen Waith (drafft) 2014-15 25

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

**COMMUNITIES SCRUTINY COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:30am, DYDD GWENER, GORFFENNAF 4ydd, 2014**

**10.30am, FRIDAY, 4th JULY, 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Lowri Haf Evans (01286 679 878)**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 26-06-2014

**Aelodaeth/Membership (18)**

**Plaid Cymru (9)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| Craig ap Iago | Annwen Hughes | Gethin Glyn Williams |
| Dilwyn Morgan | Linda Morgan | Tudor Owen |
| Caerwyn Roberts | Mandy Williams-Davies | Eurig Wyn |

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr / Councillors

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eric M. Jones | Nigel Pickavance | Angela Russell | Mike Stevens |

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors

| | | |
|---|---|---|
| sedd wag | Gruffydd Williams | Robert J. Wright |

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Gwynfor Edwards

**Democratiaid Rhyddfrydol / Liberal Democrats (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor
Chairman and Vice-Chairman of the Council

# RHAGLEN

## 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 13 Mai, 2014, fel rhai cywir

(copi yma – papur **melyn**)

## 5. ARCHWILIAD MANWL YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD AR DREFNIADAU CYNGOR GWYNEDD AR GYFER GORFODI DEDDF DIOGELWCH BWYD 1990: 6 A 7 MAWRTH 2014.

Ystyried adroddiad Pennaeth Rheoleiddio

(copi yma – papur **pinc**)

## 6. DIWEDDARIAD GWASANAETHAU BWS YN ARDAL ARFON

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet

(copi yma – papur **gwyrdd**)

## 7. BLAEN RAGLEN WAITH DRAfFT CRAFFU 2014 – 2015

Cyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith

(copi yma – papur **glas**)

## AGENDA

1. **WELCOME AND APOLOGIES**
   To accept any apologies for absence.

2. **DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**
   To receive any declaration of personal interest.

3. **URGENT ITEMS**
   To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

4. **MINUTES**
   The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee, held on 13 May, 2014, be signed as a true record.

   (copy herewith – **yellow** paper)

5. **FOOD STANDARDS AGENCY FOCUSED AUDIT OF GWYNEDD COUNCIL'S ARRANGEMENTS FOR ENFORCEMENT OF THE FOOD SAFETY ACT 1990: 6TH AND 7TH MARCH 2014.**

   Consider the Head of Regulatory Departments report

   (copy herewith – **pink** paper).

6. **UPDATE ON BUS SERVICES IN ARFON AREA**

   Consider the Cabinet Members report

   (copy herewith – **green** paper)

7. **THE COMMITTEE'S FORWARD WORK PROGRAMME (DRAFFT)**

   Submit a revised edition of the Committee's Forward Work Programme

   (copy herewith – **blue** paper)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 13.05.2014

**YN BRESENNOL** - Y Cynghorydd Eric M. Jones, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell, (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, Annwen Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Tudor Owen, Nigel Pickavance, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Mandy Williams-Davies, Robert J. Wright ac Eurig Wyn

**SWYDDOGION:** Debbie Anne Williams Jones, (Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

i) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen –- Y Cynghorydd W. Gareth Roberts – Aelod Cabinet Amgylchedd, Gwyn Morris Jones, (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Sion Gwynfryn Williams (Rheolwr Cyfathrebu), Janet Roberts (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid) ac Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol)

ii) Mewn perthynas ag eitem 7 ac 8 ar y rhaglen - Y Cynghorydd John Wyn Williams – Aelod Cabinet Cynllunio, Aled Davies, (Pennaeth Rheoleiddio), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae’n ofynnol i rannu cadeiryddiaethau’r Pwyllgorau Craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn ôl penderfyniad y Cyngor, cytunwyd i gadair y Pwyllgor yma fynd i’r Grŵp Annibynnol i adlewyrchu’r arferiad i’r Is-gadeiryddion gamu i’r gadair yn naturiol.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Angela Russell yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn am 2014/15.**

## 2. ETHOL IS GADEIRYDD

Yn dilyn argymhelliad y Grŵp Busnes i arweinyddion y prif grwpiau gwleidyddol bydd Is-Gadeiryddiaeth Pwyllgor Craffu Cymunedau yn mynd i Plaid Cymru

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Mandy Williams-Davies yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn am 2014/15.**

Cymerodd y Cynghorydd Eric Merfyn Jones y cyfle i ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth yn ei gyfnod fel Cadeirydd.

## 3. CROESO AC YMDDIHEURIADAU:

Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Craig ap Iago, Caerwyn Roberts

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**
**Cytunodd y Cadeirydd / Is Gadeirydd, dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i graffu penderfyniad y Cabinet i gasglu gwastraff gweddilliol pob tair wythnos fel mater brys oherwydd y byddai'n rhy hwyr i'w graffu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu gan y byddai gweithredu wedi bod ar benderfyniad y Cabinet erbyn hynny a phwysigrwydd y mater i drigolion y Sir.**

**STRATEGAETH WASTRAFF – NEWID I GASGLU GWASTRAFF GWEDDILLIOL**

a) Cyflwynwyd adroddiad a wnaed i'r Cabinet 29.4.2014 gan yr Aelod Cabinet (Amgylchedd) a'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn nodi eu bwriad i newid trefn casglu gwastraff gweddilliol trigolion Gwynedd i amlder casglu o dair wythnos.

b) Nodwyd yn glir y rhesymeg dros y newid gan bwysleisio bod hi'n amserol ystyried opsiynau ar gyfer y defnydd o fin gweddilliol gan fod unrhyw wastraff a roddir yn y bin olwyn gwyrdd yn mynd yn syth i dirlenwi.

c) Os am gyflawni'r Strategaeth Wastraff, cyrraedd targedau statudol o safbwynt lwfansau tirlenwi, lefelau ailgylchu ac er mwyn osgoi dirwyon sylweddol ar y Cyngor – mae yn rhaid cyflwyno newid i'r drefn bresennol o gasglu gwastraff gweddilliol o eiddo domestig yng Ngwynedd.

ch) Wedi cyfnod o ymarferiad ymgysylltu llwyddiannus, amlygwyd bod y prif risgiau a'r pryderon wedi eu cyfarch yn yr Achos Busnes Terfynol.

d) Yn y drafodaeth, ystyriwyd y materion canlynol:

i. Nid yw Gwynedd yn barod am y newid.
ii. Rhaid mynd ati i addysgu pobl gan ganolbwyntio ar y rhai sydd ddim yn ailgylchu.
iii. Angen ystyried cynllun marchnata dwys a chynllun cyfathrebu clir.
iv. Cynnig datganiad clir a dealladwy i'r wasg yn egluro'r sefyllfa - llês i ddelwedd Gwynedd
v. Dylai'r penderfyniad fod wedi ei wneud gan y Cyngor Llawn ac nid y Cabinet.
vi. Cefnogaeth i'r bwriad, ond angen cynnal mwy o drafodaeth / ymchwil cyn lansio yn Dwyfor, Hydref 2014.

dd) Cynigwyd, eiliwyd a phleidleisiwyd i'r Pwyllgor graffu ymateb Dwyfor i'r newidiadau. Dyddiad cychwynnol ar gyfer cyflwyno'r newid i Dwyfor fydd 6ed o Hydref 2014. Cyfnod penodol o seibiant cyn cyflwyno i Feirionnydd (7fed o Fawrth 2015).

**PENDERFYNWYD I'R PWYLLGOR GRAFFU EFFAITH Y NEWIDIADAU AR Y DINESYDD YN NWYFOR YN YSTOD CHWARTER 4, 2014/15.**

**6. COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4 Mawrth, 2014, yn ddarostyngedig ar yr angen i nodi presenoldeb y Cynghorydd Stephen Churchman yn y cyfarfod.

**7. EFFAITH CYTUNDEBAU AMOD 106 AR HYFYWEDD CYMUNEDAU**

a) Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Adran Rheoleiddio yn ymateb i'r cwestiynau a adnabuwyd yn ystod trafodaethau cyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu (8.4.14).

b) Cyfeiriwyd at waith ymchwil yr Uned Strategol Tai oedd yn ceisio darganfod os oedd rhwystrau yn bodoli gyda chytundebau 106 (adroddiad wedi ei rannu).

c) Cafwyd ymateb gan yr Aelod Cabinet i gais am wybodaeth mewn perthynas â threfniadau sydd ar gael i hwyluso pobl leol i aros yn eu cymunedau ynghyd ar effaith tebygol y gall newidiadau arfaethedig i'r System Cynllunio yng Nghymru gael ar ddarparu tai fforddiadwy a gweithredu cytundebau 106 yn y dyfodol.
Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet bod;

i. Rhai cwmnïau morgeisi / benthycwyr bellach yn ystyried rhoi cymorth a bod y newid yna i'w groesawu.
ii. Cyngor Gwynedd wedi ystyried cynllun i gefnogi hunan adeiladu ond yn cael eu barnu gan y Llywodraeth o fod yn 'gystadleuaeth annheg'. Y Cyngor yn parhau i geisio datrys y sefyllfa
iii. Gellid ystyried amod 106 fel 'arf ychwanegol' mewn proses cynllunio i hybu tai fforddiadwy
iv. Posib ystyried opsiwn o beidio cael 'tai fforddiadwy' ac yn hytrach datblygu mwy o dai cymdeithasol ar gyfer rhentu ond os yw hwn yn lwybr i'w ddilyn bod rhaid i'r cymunedau fod yn barod i'w derbyn.
v. Nad yw amod 106 yn drefn berffaith, ond ei bod yn drefn sydd yn annog a hwyluso dyheadau trigolion i aros yn lleol.

ch) Yn y drafodaeth, ystyriwyd y materion canlynol:

i. Ydy'r Cyngor wedi ystyried Amod Tai Parhaol
Ymateb: Do, ond bod angen cyd-destun polisi cadarn i wneud hyn yn effeithiol. Cyfreithwyr y Cyngor yn casglu tystiolaeth i gyfiawnhau yr angen er sefydlu'r cyd-destun.

ii. Unedau gwag - sut mae eu cael yn ôl i ddefnydd?
Ymateb: Swyddogion Tai Gwag brwdfrydig iawn yn blaenoriaethu lle mae'r angen. Oddeutu 55 o dai yn dod 'nôl i ddefnydd' yn flynyddol. Adnoddau yn brin.

iii. Angen sicrhau bod y Bil Cynllunio yn rhoi ystyriaeth i ddiwylliant lleol.
Ymateb: Yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Rheoleiddio wedi mynychu Pwyllgor Craffu'r Llywodraeth i ymateb i'r Bil Cynllunio. Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn gryf i faterion yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg a diwylliant lleol wrth drafod y Bil.

iv. Cais gan y Cynghorydd Gethin Williams am y nifer o gynlluniau 106 sydd wedi eu derbyn.
Ymateb: Pennaeth Rheoleiddio i rannu'r ystadegau gyda'r Cynghorydd.

**PENDERFYNWYD DERBYN YR ADRODDIAD**

**8. CERBYDAU'N PARCIO DROS NOS AR DIR YM MHERCHNOGAETH CYNGOR GWYNEDD, PARC CENEDLAETHOL ERYRI A CHYFOETH NATURIOL CYMRU NEU MEWN ENCILFA HEB GANIATÂD**

a) Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Pennaeth Rheoleiddio yn amlygu bod yr achosion uchod yn cael eu trafod ar draws adrannau o fewn y Cyngor a bod pwy sydd yn ymdrin ac achos unigol yn dibynnu ar berchnogaeth neu reolaeth o'r safle. Amlygwyd, mai ymateb i bob achos yn unigol yw'r arfer, gan rannu gwybodaeth gyda adrannau eraill perthnasol. Y weithred debycaf fuasai anogaeth i'r cerbydau symud ymlaen. Yn arferol, bydd yr heddlu yn rhan o'r drafodaeth. Nid oes is-ddeddfau i ymdrin â'r mater yma yn gyffredinol yng Ngwynedd ac anodd iawn yw ymdrin â rhai o'r materion hawliau lles all godi.

b) Wrth ystyried achosion penodol gan Gynghorwyr yn eu wardiau, cynigiwyd annog a chynnal trafodaethau lleol gyda swyddogion a chyfreithwyr y Cyngor i ddatrys perchenogaeth y safle.

c) Yn y drafodaeth, ystyriwyd y materion canlynol:

   i) Yr angen i ddatrys y sefyllfa. Os annog cerbydau i 'symud ymlaen' rhaid sicrhau nad ydynt yn 'symud ymlaen' er enghraifft, i'r encilfa nesaf
   ii) Awgrymwyd y dylid cael mwy o arwyddion
   iii) Angen cadw balans – peidio 'gyrru' ymwelwyr allan o Wynedd

Derbyniwyd y wybodaeth. Pennaeth Rheoleiddio yn barod i'r Adran hwyluso trafodaethau lleol.

**9. BLAEN RAGLEN WAITH CRAFFU 2013-14**

a) Cyflwynwyd y fersiwn diweddaraf er gwybodaeth.

**Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 1:15pm

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **4 Gorffennaf, 2014** |
| **TEITL** | **Archwiliad Manwl yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar drefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer gorfodi Deddf Diogelwch Bwyd 1990: 6 a 7 Mawrth 2014.** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. W. Gareth Roberts** |
| | |
| **PWRPAS** | |

**Cefndir**

1. Cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd Archwiliad Manwl ar drefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer gorfodi Deddf Diogelwch Bwyd 990 ar 6 a 7 Mawrth 2014.

2 Roedd yr Archwiliad yn manylu ar y pynciau a ganlyn:
   1. Gweithrediad Argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r achosion o *E.coli* O157 yn ne Cymru ym mis Medi 2005, a
   2. Sut y Rheolir Ymyraethau mewn Busnesau Bwyd Newydd.

3. Sbardunwyd yr Archwiliad gan argymhelliad yn Adroddiad yr Athro Pennington (Mawrth 2009) y dylid cynnal adolygiad sylweddol o orfodaeth hylendid bwyd yng Nghymru oddeutu pum mlynedd ar ôl cyhoeddi ei adroddiad ac mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ASB Cymru gyflwyno adroddiad erbyn diwedd mis Ebrill i gynnwys asesiad o'r sefyllfa gyfredol yng Nghymru.

4. Roedd canfyddiadau'r Archwiliad hwn yn adlewyrchu'n wael ar Wynedd. Bydd yr adroddiad Archwilio ei hun yn cael ei gyhoeddi a'r canfyddiadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw penodol at Wynedd fel yr unig sir i beidio â gweithredu Argymhellion

Pennington yn effeithiol ac mae'n angenrheidiol i Gyngor Gwynedd ddatblygu strategaeth effeithiol er mwyn ymdrin â'r methiannau hyn.

**Yr Adroddiad Archwilio**

5. Mae'r Cyngor wedi derbyn adroddiad sy'n cynnwys canfyddiadau'r Archwiliad. Gwahoddwyd y Cyngor i ystyried y canfyddiadau ac adrodd ar unrhyw wallau ffeithiol ond rhoddodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd rybudd fod disgwyl i'r Cyngor ddatblygu Cynllun Gweithredu i ymdrin â'r materion sydd angen eu gwella erbyn 12 Mai 2014.

6. Er bod staff wedi codi ambell i gwestiwn ynghylch cynnwys yr adroddiad, mae'r rhain yn ymwneud â'r ffordd y nodwyd y canfyddiadau ac anghytundeb ynghylch y modd y dehonglir materion goddrychol yn hytrach na gwallau ffeithiol.

7. Gellir ystyried felly bod canfyddiadau'r Archwiliad yn gynrychioliad teg o'r pynciau a archwiliwyd. Felly, nid yw'r adroddiad yn un braf i'w ddarllen i Gyngor Gwynedd gan y darganfuwyd nifer o achosion difrifol o ddiffyg cydymffurfiaeth. Mae'r canfyddiadau hyn yn peri pryder, ond, gan gofio mai dim ond ar ddau bwnc yr oedd yr archwiliad yn canolbwyntio a hynny o fewn cyfnod byr iawn, mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch agweddau eraill o ddarpariaeth Diogelwch Bwyd Cyngor Gwynedd.

8. Mae'r adroddiad yn un clir iawn ac ymdrinnir â'r ddau bwnc mewn Atodiadau ar wahân. Yn Atodiad 1, sy'n ymdrin â Gweithrediad Argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r achosion o *E.coli* O157 yn ne Cymru ym mis Medi 2005, rhennir y canfyddiadau'n dair rhan, sef:

   a) argymhellion oedd wedi'u gweithredu'n llawn gan yr Awdurdod;
   b) argymhellion lle'r oedd yr Awdurdod wedi dangos cydymffurfiaeth yn gyffredinol ond lle'r adnabuwyd achosion ble nad oedd yr argymhellion hyn wedi cael eu gweithredu;
   c) argymhellion lle y gwelwyd bod cydymffurfiaeth â'r gweithrediad wedi bod yn wael.

9. Er bod yna nifer o argymhellion yr oedd yr Awdurdod wedi'u gweithredu'n llawn, nid oedd hynny'n wir am lawer iawn mwy o argymhellion eraill. I grynhoi'r achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth:

- *Roedd yr archwiliad wedi darganfod achosion ble nad oedd camau gweithredu wedi cael eu trosglwyddo i lefel uwch i ymdrin â sefydliadau bwyd nad oeddynt yn cydymffurfio.*
- *Nid oedd tystiolaeth ar gael fod yr holl swyddogion a oedd yn gyfrifol am archwilio busnesau bwyd wedi derbyn yr hyfforddiant achrededig / ardystiedig angenrheidiol.*

- *Adnabuwyd nifer o anghysondebau wrth ddefnyddio sgoriau ynghylch hyder yng ngallu busnes i reoli diogelwch bwyd.*
- *Nid oedd digon o wybodaeth ar gael yn ffeiliau'r sefydliadau bwyd a gafodd eu gwirio i ddangos bod ystyriaeth ddigonol wedi'i rhoi i risgiau trawshalogi wrth gynnal archwiliadau.*
- *Mewn nifer sylweddol o achosion, nid oedd digon o wybodaeth wedi'i chasglu am bwyntiau rheoli critigol y busnesau bwyd.*
- *Nid oedd gweithdrefn archwilio'r Awdurdod (a gafodd ei hadolygu ddiwethaf yn Nhachwedd 08) yn cynnwys y gofyn i dynnu sylw at faterion a oedd yn peri pryder er budd y swyddog fyddai'n cyflawni'r archwiliad nesaf a oedd wedi'i drefnu. Wrth wirio ffeiliau, dangoswyd nad oedd pryderon / problemau posib yn cael eu codi na'u dilyn i fyny yn yr archwiliad dilynol.*
- *Yn gyffredinol, nid oedd yr awdurdod yn medru dangos fod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda gweithwyr yn ystod archwiliadau hylendid bwyd.*
- *Yn gyffredinol, nid oedd gweithdrefnau'n cael eu hadolygu ac nid oeddynt yn adlewyrchiad cyson o arferion gweithio cyfredol.*

10. Mae Atodiad 2 yn ymdrin â chanfyddiadau'r Archwiliad o ran Sut y Rheolir Ymyraethau mewn Busnesau Bwyd Newydd. Roedd yr achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Statudol a/neu'r Arweiniad Ymarfer a nodir yn yr Atodiad hwn yn cynnwys:

- *Roedd cyfran sylweddol o eiddo newydd heb gael eu harchwilio o fewn y targed 28 diwrnod o'r dyddiad agor.*
- *Er eu bod yn cynnal gwaith monitro mewnol ansoddol, nid oedd yn digwydd yn unol â'r weithdrefn sydd wedi'i dogfennu.*
- *Nid oedd yr un o'r ffurflenni cofrestru a wiriwyd wedi cael eu stampio â'r dyddiad ar ôl eu derbyn, sy'n groes i ofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Statudol.*
- *Bu oedi am wyth mis cyn archwilio busnes newydd a gafodd wedyn ei asesu fel categori A (risg uchel) a oedd yn gweini bwyd i grwpiau bregus.*
- *Mewn tri achos nid oedd digon o wybodaeth wedi'i chofnodi i ddangos bod asesiad llawn wedi'i gyflawni o ran HACCP neu fod rheoli trawshalogi wedi cael ei ystyried yn llawn.*
- *Mewn dau achos nid oedd digon o wybodaeth wedi'i chofnodi i ddangos bod asesiad o hyfforddiant trin bwyd wedi'i gyflawni.*
- *Ar sail y dystiolaeth oedd ar gael roedd risg tri sefydliad bwyd wedi cael ei sgorio'n anghywir.*

- *Mewn dau o dri achos lle’r adnabuwyd materion sylweddol, nid oedd y rhain wedi cael eu hadnabod er budd y swyddog nesaf fyddai’n archwilio’r busnesau. Mewn un achos, roedd y materion sylweddol wedi’u hamlygu.*
- *Mewn tri achos, roedd angen ailymweld ar sail torri rheolau. Nid oedd y bwriad i ailymweld wedi’i nodi ar adroddiad yr ymweliad a roddwyd i’r busnesau bwyd ac ni chynhaliwyd unrhyw ail ymweliad.*

11. Mae’r mater olaf a godwyd gan yr Archwilwyr yn llawn haeddu ei gynnwys yn fanwl:

*“The nature of the Authority’s advisory visits to unrated food establishments prior to undertaking food hygiene risk rating inspections was discussed. One issue of particular concern was that significant contraventions had been identified during advisory visits which had not been followed up in a timely manner. Officers explained that the rationale behind the approach was to ensure food businesses were provided with detailed advice before being assessed under the Food Hygiene Rating Scheme.*

*This approach compromises the Authority’s ability to complete official controls at new businesses within 28 days of registration or from when it becomes aware that the establishment is operating. The Authority’s attention is brought to statutory guidance issued in relation to the Food Hygiene Rating (Wales) Act 2013.”*

12. Mae’r holl faterion a nodwyd gan yr Archwilwyr yn ymwneud â gweithdrefnau anghywir, heb eu diweddaru, gweithdrefnau heb eu cyflawni’n llawn, monitro annigonol neu fel yn yr enghraifft olaf a geir uchod, yn ymwneud â datblygu polisi sy’n groes i’r arweiniad statudol. Mewn nifer o achosion nid yw’r gweithdrefnau wedi cael eu diweddaru ers 2008 ac felly nid ydynt yn ymgorffori argymhellion yr Athro Pennington yn 2009. Ymddengys nad oes gan yr ymarfer mewn perthynas â chyflawni ymweliadau ymgynghori ar fusnesau newydd oedd yn dechrau masnach a adnabuwyd gan yr Archwilwyr unrhyw sail mewn unrhyw Nodyn Gweithdrefn ac mae’n gwbl groes i i’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd statudol.

**Y Cynllun Gweithredu**

13. Mae’r Cynllun Gweithredu i ymdrin â’r methiannau a gafodd eu hadnabod yn yr Adroddiad Archwilio wedi cael ei baratoi ac fe'i cyflwynwyd i'r ASB ar 9 Mai 2014. Mae’r Cynllun Gweithredu yn rhestru 13 maes lle ceir cynlluniau gwella i ymdrin â’r argymhellion. Mae nifer o linynnau cyffredin yn rhedeg drwy’r gwelliannau a gynllunir:

    - Adolygiad sylfaenol o fformat a chynnwys Nodiadau Gweithdrefn a Ffurflenni.
    - Adolygu gweithdrefnau monitro mewnol.

- Adolygu addasrwydd yr hyfforddiant a darparu hyfforddiant gloywi.
- Sicrhau bod yr holl gofnodion hyfforddi a manylion y cymwysterau yn cael eu cadw.
- Adolygu’r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu’r Gwasanaeth Diogelwch Bwyd.

14. Mae nifer o welliannau eisoes wedi’u rhoi ar waith ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni’r holl welliannau erbyn y dyddiadau targed.

**Atodiad**: Gwybodaeth i Osod y Cyd-destun

1. Nifer a mathau'r Busnesau Bwyd yng Ngwynedd

   Mae’r gwasanaeth Hylendid Bwyd yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth Hylendid Bwyd mewn 2,121 o fusnesau bwyd sydd wedi’u cofrestru yng Ngwynedd (y data fel ar 1 Ebrill 2014). Mae’r niferoedd yn ôl categori fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cynhyrchwr | 27 |
| Lladd-dy | 2 |
| Gwneuthurwr / Proseswr | 58 |
| Paciwr | 8 |
| Dosbarthwr / Cludwr nwyddau bwyd | 17 |
| Archfarchnad | 61 |
| Mân-werthwr llai | 345 |
| Mân-werthwr arall | 53 |
| Bwyty/Caffi/Ffreutur | 452 |
| Gwesty / Tŷ Llety | 286 |
| Tafarn/Clwb | 199 |
| Gwerthwr Bwyd i’w Gario Allan | 140 |
| Sefydliad darparu gofal | 185 |
| Ysgol / Coleg | 137 |
| Uned Fwyd Symudol | 28 |
| Bwyty / Arlwywr Arall | 67 |
| Gwneuthurwyr a Chyflenwyr Deunyddiau ac Eitemau sy’n dod i gysylltiad â bwyd | 4 |
| Gwneuthurwr Bwyd sy’n Manwerthu | 52 |
| Cyfanswm | 2121 |

2. Sgôriau Risg Busnesau

   Asesir pob eiddo am y risg cyffredinol y maent yn ei beri i iechyd cyhoeddus yn seiliedig ar y perygl posib (h.y. math y bwyd a'r dull ymdrin, y dull prosesu, y nifer posib o ddefnyddwyr sydd mewn risg), lefel y gydymffurfiaeth a welwyd yn yr archwiliad diwethaf a'r hyder yng ngallu rheolwyr y busnes bwyd, ac yn effeithiolrwydd y gweithdrefnau rheoli sydd mewn lle i reoli'r peryglon.

   Mae dadansoddiad o’r eiddo yn ôl y categori risg fel a ganlyn:

| Categori | |
|---|---|
| A | 6 |
| B | 58 |
| C | 902 |

| | |
|---|---|
| D | 438 |
| E | 699 |
| Y Tu Allan i'r Cynllun Sgorio Risg | 6 |
| Busnesau newydd yn aros am sgôr | 12 |
| Cyfanswm | 2121 |

Categori A yw'r Risg Uchaf a Chategori E yw'r risg isaf.

3. Penderfynu ar amlder yr ymyraethau
Mae Categori Risg busnes yn pennu pa mor aml y dylid ymyrryd h.y. y cyfnodau rhwng archwiliadau. Mae'r cyfnodau ymyrraeth hyn fel a ganlyn:

| Categori | Amlder |
|---|---|
| A | O leiaf pob chwe mis |
| B | O leiaf pob 12 mis |
| C | O leiaf pob 18 mis |
| D | O leiaf pob 24 mis |
| E | Pob 36 mis |

Ystyrir bod categorïau A, B a C yn 'Eiddo Risg Uchel' a rhoddir blaenoriaeth i archwilio'r eiddo hyn. Yn 2014/15 mae angen cynnal 673 archwiliad ar eiddo Risg Uchel. Yn ogystal, mae angen cynnal 167 o archwiliadau Categori D. Nid oes raid archwilio eiddo Categori E ond mae'n rhaid defnyddio strategaethau gorfodi eraill i ymdrin â hwy. Disgwylir i 200 o fusnesau bwyd gau neu newid perchnogaeth yn ystod 2014/15.

4. Busnes Tymhorol
O'r cyfanswm o 2121 o fusnesau bwyd sydd wedi'u cofrestru yng Ngwynedd, mae 355 yn gweithredu am ran o'r flwyddyn yn unig. Eleni, nid yw 154 o'r eiddo sydd angen eu harchwilio ond yn gweithredu yn ystod cyfnod yr haf, felly mae'n rhaid eu harchwilio cyn diwedd Chwarter 2.

5. Busnesau Newydd
Yn ogystal ag archwilio busnesau bwyd cyfredol, bydd yn rhaid archwilio unrhyw fusnesau bwyd sy'n dechrau masnachu o fewn 28 diwrnod iddynt agor. Disgwylir i oddeutu 200 o fusnesau newydd (mae 'busnesau newydd' yn cynnwys busnesau cyfredol sy'n newid perchnogaeth) agor yn ystod 2014/15.

6. System Sgorio Hylendid Bwyd
Dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd sydd bellach yn fandadol, mae gofyn i'r rhan fwyaf o fusnesau bwyd arddangos hysbysiad ar eu heiddo sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd am y safon Hylendid Bwyd y maent wedi'i gyrraedd. Mae'r sgoriau hyn yn seiliedig ar asesiad yr archwiliad eiddo a gaiff ei gynnal gan yr Archwilwyr Hylendid Bwyd.

Dyma sgoriau busnesau bwyd Gwynedd (fel ar 9/4/2014)

| | Da iawn | Da | Yn gyffredinol foddhaol | Angen Gwella | Angen gwella'n sylweddol | Angen gwella ar unwaith |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr Cynllun Hylendid Bwyd | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| Bwyty/Caffi/Ffreutur | 275 | 92 | 36 | 4 | 3 | |
| Gwesty / Tŷ Llety | 180 | 46 | 16 | 2 | 1 | 1 |
| Mân-werthwr Llai | 122 | 38 | 14 | 6 | 3 | |
| Archfarchnad | 34 | 17 | 3 | 1 | | |
| Eiddo sy'n Darparu Gofal | 98 | 11 | 2 | 1 | 1 | |
| Bwytai ac Arlwywyr – Eraill | 47 | 7 | | | | |
| Dosbarthwyr/Cludwyr | 2 | | | | | |
| Tafarn/Clwb | 96 | 39 | 9 | 3 | 2 | |
| Mân-werthwr Arall | 13 | 2 | | | | |
| Gwerthwr Bwyd i'w Gario Allan | 90 | 28 | 16 | 2 | 2 | |
| Ysgol / Coleg | 114 | 18 | 2 | | | |
| Uned Fwyd Symudol | 20 | 3 | 1 | 1 | | |
| Gwneuthurwyr a Phacwyr | 49 | 12 | 3 | 3 | 1 | |
| Mewnforwyr / Allforwyr | | | | | | |
| Cynhyrchwyr Cynradd | 4 | 1 | | | | |
| Cyfanswm | 1144 | 314 | 102 | 23 | 13 | 1 |

Pan ddyfarnir Sgoriau Isel i fusnesau bwyd, digwydd hyn o ganlyniad i arferion a gweithdrefnau hylendid bwyd gwael a ddarganfuwyd yn ystod yr archwiliad. Caiff busnesau o'r fath eu targedu a'u monitro am welliannau gan y swyddogion ac mae'n bosib y rhoddant gamau gweithredu ar waith os yw hynny'n briodol. Mae modd i fusnesau ofyn i gael archwiliad ail-sgorio wedi iddynt gywiro'r diffygion a ddarganfuwyd.

7. <u>Staffio ac Adnoddau</u>

Mae'r gwasanaeth Hylendid Bwyd yn rhan o'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, sy'n gweithredu o'r tair Swyddfa Ardal. Er bod y staff wedi'u lleoli yn y Swyddfeydd Ardal unigol, maent mewn gwirionedd yn gweithredu ar draws holl ardal Gwynedd yn ôl gofynion patrwm eu pwysau gwaith. Mae nifer o'r swyddogion hefyd yn gweithio o gartref i leihau'r costau teithio, a'r amser a dreulir yn teithio.

Yn ogystal â chynnal archwiliadau Hylendid Bwyd, mae 12 swyddog maes hefyd yn ymgymryd â dyletswyddau eraill, megis Safonau Bwyd, afiechydon heintus, Iechyd Cyhoeddus a Diogelwch Dŵr, felly mae'r gwir amser a ddyrannir i ddyletswyddau Hylendid Bwyd gyfwerth ag 8 swyddog llawn amser (FTE). Rhaid i swyddogion sy'n cyflawni archwiliadau hylendid bwyd

fod yn swyddog Iechyd yr Amgylchedd cymwys neu feddu ar gymhwyster mewn archwiliadau Hylendid Bwyd. Ar gyfartaledd, disgwylir i bob swyddog archwilio oddeutu 100 busnes mewn blwyddyn.

Yn ogystal, mae'r Rheolwr Hylendid Bwyd yn treulio 80% o'i hamser ar faterion Hylendid Bwyd (0.64 FTE) ac mae 1.13 FTE arall yn mynd ar Weithredu, Samplo a chefnogi Uwch Reolwyr.

£509,503 oedd cyfanswm net y gwariant ar y gwasanaeth Hylendid Bwyd yng Ngwynedd yn 2013/14.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **4 Gorffennaf, 2014** |
| **TEITL** | **Gwasanaethau bws yn ardal Arfon** |
| **AWDUR** | **Cyng. W. Gareth Roberts, Aleod Cabinet Amgylchedd ac Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. W. Gareth Roberts** |
| | |
| **PWRPAS** | **I godi ymwybyddiaeth aelodau'r Pwyllgor o effaith penderfyniad Cwmni Padarn Bus Ltd i derfynu masnachu ar ddarparu gwasanaethau cludiant yng Ngwynedd.** |

**Cefndir**

1. Pwrpas yr adroddiad hwn ydi amlinellu effaith penderfyniad Cwmni Padarn Bus Ltd i derfynu masnachu a darparu gwasanaethau cludiant am hanner nos, dydd Gwener 30ain o Fai 2014.

2. Mae effaith gyllidol sylweddol ar y Cyngor yn deillio o'r newidiadau. Mae'r adroddiad yma yn egluro camau a gymerwyd i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau a sut bydd yr Adran Rheoleiddio, trwy'r Uned Cludiant Integredig, yn ymdrechu i yn rheoli'r cyllid dros y misoedd nesaf.

**Materion cyn 30 Mai 2014**

3. Wedi derbyn gwybodaeth ddechreuol ynglŷn â sefyllfa fregus y cwmni, prif flaenoriaeth y Cyngor o dan yr amgylchiadau oedd gwarchod gwasanaethau i ddefnyddwyr. I'r perwyl hyn, bu i swyddogion y Cyngor gydweithio yn agos â swyddogion y Llywodraeth i chwilio am ddatrysiad.

4. Mae'r cydweithio yma gyda'r Llywodraeth, ar lefel swyddogion a gwleidyddol, yn parhau.

**Materion ar ôl 30 Mai 2014**

5. Yn ystod mis Mai, bu i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth drefnu tendro holl wasanaethau addysg a chyhoeddus oedd yn cael eu gweithredu gan gwmni Padarn a gwneud trefniadau i'w dechrau ar Ddydd Sadwrn 31ain o Fai (cyhoeddus) a Dydd Llun 2ail o Fehefin (addysg). Mae pob siwrne statudol

addysg wedi cael eu cyfarch fel rhan o'r ymarferiad yma, ond mae rhai newidiadau yn lefel gwasanaeth cludiant cyhoeddus fel yr amlinellir yn Nhabl 1.

**Effaith cyllidol y newidiadau:**

6. Mae'r effaith gyllidol oherwydd y newidiadau yn sylweddol ac isod gweler crynodeb o'r rhain:

**Costau Ychwanegol Addysg Pur:**

| | Costau Blynyddol | Costau Pro Rata (Mis Mehefin hyd at ddiwedd Gorffennaf 2014) |
|---|---|---|
| Costau Presennol Padarn: | £212,422.40 | £35,403.73 |
| Costau yn dilyn ail tendro: | £256,998.37 | £42,833.06 |
| Gwahaniaeth: | **£44,575.97** | **£7,429.33** |

| **Contractau dan dendr** | Blynyddol | Pro Rata (Mehefin - Hydref 2014) |
|---|---|---|
| Costau Presennol Padarn: | £276,500.00 | £115,208.33 |
| Costau yn dilyn ail tendro | £246,425.60 | £102,677.33 |
| Gwahaniaeth: | **-£30,074.40** | **-£12,531.00** |

| **Contractau S4 a Sherpa** | Blynyddol | Pro Rata (Mehefin - Hydref 2014) |
|---|---|---|
| Costau Presennol Padarn: | £88,639.37 | £36,933.07 |
| Costau yn dilyn ail tendro | £233,901.97 | £97,459.15 |
| Gwahaniaeth: | **£145,262.60** | **£60,526.08** |

| **Contractau Masnachol** | Blynyddol | Pro Rata (Mehefin - Hydref 2014) |
|---|---|---|
| Costau Presennol Padarn: | - | - |
| Costau yn dilyn ail tendro | £260,955.78 | £108,731.58 |
| Gwahaniaeth: | **£260,955.78** | **£108,731.58** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm:** | **£376,143.98** | **£156,726.66** |

**Beth yw'r sefyllfa bresennol**

7. Mae tendrau byr rybudd yn tueddu i fod yn llai cost effeithiol na thendrau 5 mlynedd arferol ond oherwydd yr amgylchiadau a'r amserlen nid oedd opsiwn arall o ran cyfarch y broblem o gynnal gwasanaethau. I ymateb i hyn, bwriad y Gwasanaeth Trafnidiaeth yw ail dendro holl wasanaethau addysg oedd yn cael eu darparu gan gwmni Padarn yn ystod gwyliau'r Haf eleni i fod yn weithredol o'r flwyddyn ysgol newydd ar yr 2il o Fedi 2014. Bydd rhain yn

gyfle i gynnig contractau mwy hir dymor gyda gobaith o dderbyn prisiau mwy cystadleuol fydd yn lleihau'r gost i'r trethdalwr.

8. Mae angen trafodaeth eang ac agored gyda phartneriaid Goriad Gwyrdd Eryri hynny yw, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Conwy, i ddatrys be ellir ei wneud gyda gwasanaeth bws y Sherpa. Yn sicr, y weledigaeth ydi cael gwasanaeth o safon sy'n gost effeithiol i'r bartneriaeth ac yn gynaliadwy yn y tymor hir. Er bod penderfyniadau tymor byr wedi eu gwneud i gynnal y gwasanaethau bydd rhaid ail edrych yn sylfaenol ar beth a ddarperir erbyn diwedd yr haf. Mae cysylltiadau dechreuol wedi eu gwneud er cynnal y drafodaeth ar siapio'r gwasanaeth pwysig hyn ar gyfer y dyfodol.

9. Mae gwasanaethau oedd yn weithredol drwy gontract yn ymddangos yn eithaf cost effeithiol o'r ail dendro a gynhaliwyd ac mi fydd y gwasanaeth yn monitro lefel defnydd y gwasanaethau yma cyn penderfynu tendro eto ai peidio. Eto, debyg mae yn ddiweddarach yn yr haf y bydd hyn yn digwydd er rhoi cyfle i gasglu tystiolaeth ddigonol a chadarn fel cyd-destun i symud ymlaen.

10. Mae'r gwasanaethau masnachol oedd Padarn yn eu cyflawni yn hynod o gostus i'w cynnal o'r pwrs cyhoeddus. Mae rhain wedi eu rhoi yn eu lle oherwydd yr effaith y gallai eu diflaniad gael ar allu pobl i gyrraedd gwasanaethau, gwaith ac addysg. Y gobaith yw y bydd cwmnïau yn eu cofrestru'n fasnachol yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn sgil hynny bydd costau i'r Cyngor yn lleihau.

11. Yn sicr bydd newidiadau pellach yn ystod y mis neu ddau nesaf, gyda posibilrwydd y bydd cwmni arall yn prynu depot Padarn yn Llanberis. Gallai hynny arwain at gyfleon newydd o ran darparu gwasanaethau yng ngogledd Arfon.

12. Fel bydd y sefyllfa'n sefydlogi dros y misoedd nesaf, bydd cyfle i ystyried adolygiad o drefniadau'r Uned Cludiant Integredig gan gwmni Edge sydd wedi ei gomisiynu yn ddiweddar. Fel y gwŷr y Pwyllgor Craffu, roedd y sefyllfa ariannol o ran darparu cludiant yn argyfyngus cyn i broblemau Padarn ddod i'r amlwg a'u heffaith yw bod y risgiau o weld y bwlch cyllidol wedi cynnyddu yn sylweddol. Mae gwaith ar y gweill i geisio rhesymoli ac addasu'r rhwydwaith o fewn y gyllideb sydd ar gael ac fe fydd y Cabinet yn ystyried cynigion hyn yn yr Hydref o ran cyfarch sut all y gwasanaeth ddelio gyda'r sefyllfa yma ynghyd a'r bwlch ariannol oedd eisoes yn ein hwynebu cyn yr argyfwng.

13. Credaf ei bod yn briodol i mi nodi bod y sefyllfa yma wedi cael effaith sylweddol ar raglenni gwaith ehangach yr Adran Rheoleiddio a'r Gwasanaeth Trafnidiaeth yn benodol. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i symud adnoddau a chapasiti i leihau effeithiau ar gynlluniau a thrigolion ond ni ellir

gwarantu na fydd angen llithro ambell amserlen cyflawni. Rwyf mewn trafodaethau wythnosol gyda’r Pennaeth Adran ynglŷn â hyn.

14. Yn olaf, ond yn hynod o bwysig, hoffwn bwysleisio fy niolch i staff Gwasanaeth Trafnidiaeth, ac i staff yr Uned Cludiant Integredig yn benodol am y gwaith clodwiw sydd wedi ei wneud i geisio lleihau'r effaith ar drigolion Gwynedd. Hoffwn hefyd ddiolch i staff adrannau eraill, yn enwedig Cyllid a Chyfreithiol sydd wedi eu cefnogi. Mae effaith digwyddiad o’r fath yn sylweddol ond trwy eu hymdrech, llwyddwyd i gadw'r effaith ar drigolion Gwynedd i leiafswm. Hoffwn i’r Pwyllgor nodi fy ngwerthfawrogiad o’u hymdrechion.

**TABL 1**

| Contract | Trywydd | Gweithredwr newydd | Amlder blaenorol | Amlder presenol |
|---|---|---|---|---|
| 6 | *Bethesda - Mynydd Llandygai - Bangor* | Arriva | >bob dwy awr | >bob dwy awr |
| 67s | *Bangor - Tregarth - Bethesda - Gerlan (suliau)* | Arriva | bob awr (a >bob 2 awr gan Arriva) | >bob dwy awr |
| 72 | *Bangor - Felinheli - Bethel* | Express Motors | 4 siwrne cylchol y dydd (a gwas.73) | 4 siwrne cylchol y dydd - gwas 73 dod i ben |
| 83 | *Caernarfon - Deiniolen - Dinorwig* | Express Motors | bob awr - dod iben 2220 | bob awr - dod i ben 1900 |
| 85s | *Bangor - Deiniolen - Llanberis (suliau)* | Arriva | bob dwy awr | bob dwy awr |
| 88s | *Llanberis - Llanrug - Caernarfon (Suliau)* | Express Motors | bob awr | bob awr - ond hefo siwrneiau ychwanegol |
| 87/S4 | *Caernarfon - Waunfawr - Beddgelert* | Express Motors | bob 2 awr - Un siwrne dwy-ffordd ar y Sul | bob dwy awr - colli gwasanaeth Sul |
| Sherpa | *Sherpa* | GHA | Llanberis i Betws y Coed - bob awr<br>Llanberis i Penypass - bob ½ awr<br>Bethesda i Betws y Coed - un y dydd | bob dwy awr<br>bob 1/2 awr ar benwythnosauu yn unig<br>Dim - dechrau'n Capel Curig |
| 75 | *Maesgeirchen - Bangor - Parc Menai* | Arriva | bob awr | Dileu - gwasanaeth 78 Arriva rhedeg bob 1/2 awr |
| 85 | *Llanberis - Llanrug - Bethel - Bangor* | Express Motors | bob awr | 4 siwrne dwy-ffordd a siwrneiau statudol addysg |
| 88/89 | *Llanberis - Llanrug - Caernarfon* | Express Motors | bob 1/2 awr | bob awr |
| 10 | *Caernarfon - Bangor* | - | bob 1/2 awr | **Cyngor ddim wedi tendro'r gwasanaeth -**<br>Gwas. 5/X5 Arriva bob 15munud |
| 76/77 | *Gerlan - Bethesda - Rachub - Bangor* | - | >bob dwy awr | **Cyngor ddim wedi tendro'r gwasanaeth -**<br>Gwas 7/67 Arriva bob 20munud |
| 71/75 | *Bangor - Maesgeirchen* | - | bob 20munud | **Cyngor ddim wedi tendro'r gwasanaeth -**<br>Gwas 78 Arriva bob 1/2 awr |
| 73 | *Bangor - Minffordd - Caerhun* | - | 5 siwrne cylchol y dydd | **Cyngor ddim wedi tendro'r gwasanaeth -**<br>Gwas 72 Arriva 4 gwaith y dydd |
| 92 | *Caernarfon - Maes Barcer* | - | Bob 15munud a 5munud rhwng Express a Padarn | **Cyngor ddim wedi tendro'r gwasanaeth -**<br>Gwas 92 Express bob 20munud |

**BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2014/2015** | **COMMUNITIES SCRUTINY COMMITTEE FORWARD WORK PROGRAMME 2014/15**

| **4 Gorffennaf 2014** | **4 July 2014** |
|---|---|
| 1. **Hylendid Bwyd** (Perfformiad)<br>Cadernid y gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor mewn maes allweddol o ran iechyd cyhoeddus ac o ran hyfywdra yr economi leol. | 1. **Food Hygiene** (Performance)<br>The robustness of the service provided by the Council in a key field of ensuring public health and the viability of the economy. |
| 2. **Diweddariad Gwasanaethau Bws yn Ardal Arfon** | 2. **Update Bus Services in Arfon Area** |

| **30 Medi 2014**<br>(Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn) | **30 September 2014**<br>(Crime and Disorder Committee) |
|---|---|
| 1. **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol**<br>Adroddiad ar waith y bartneriaeth | 1. **Community Safety Partnership**<br>Report on the work of the partnership |
| 2. **Cartrefi Cymunedol Gwynedd**<br>Adroddiad Blynyddol | 2. **Cartrefi Cymunedol Gwynedd**<br>Annual Report |
| 3 **Ymchwiliad Craffu Balchder Bangor**<br>Adroddiad Cynnydd gan yr Aelod Cabinet | 3. **Bangor Pride Scrutiny Investigation**<br>Progress Report by the Cabinet Member |
| 4. **Parcio**<br>Adroddiad terfynol yr adolygiad parcio | 4. **Parking Fees**<br>Final report on the parking review |
| 5. **Cynllun Gwarchod Arfordir Gwynedd** | 5. **Gwynedd Coastline Protection Plan** |

| 02 Rhagfyr 2014 | 02 December 2014 |
|---|---|
| 1. **Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd**<br>Adroddiad ar waith y bartneriaeth | 1. **Gwynedd Primary Schools' Welsh Language Charter**<br>Report on the work of the partnership |
| 2. **Monitro Gorfodaeth Meysydd Carafanau**<br>Adroddiad ar drefniadau monitro meysydd carafanau | 2. **Monitoring Enforcement of Caravan Parks**<br>Report on the monitoring arrangements of caravan parks |
| 3. **Trafnidiaeth**<br>Adroddiad Drafft Ymchwiliad Craffu Cludiant Addysg Ôl-16<br>Adroddiad ar y Gweithgor Aelodau - Matrics Cludiant Cyhoeddus | 3. **Transport**<br>Draft Report on Post-16 Education Transport Scrutiny Investigation<br>Report on the Members Working Group – Public Transport Matrix |

| 24 Chwefror 2015 | 24 February 2014 |
|---|---|
| 1. **Gwastraff Gweddilliol**<br>Adroddiad ar ddysgu gwersi o'r casgliadau sbwriel pob 3 wythnos yn Nwyfor | 1. **Residual Waste**<br>Report on lessons learnt from collecting rubbish every 3 weeks in Dwyfor |
| 2. **Cadw'r Budd yn Lleol**<br>Craffu'r adolygiad – prosiect strategol | 2. **Retaining Economic Growth Locally**<br>Scrutinize the review – strategic project |
| 3. **Canolfannau Hamdden**<br>Diweddariad ar Adolygiad Hamdden gan *Just Solutions*<br>Adroddiad ar broffil defnyddwyr y Canolfannau Hamdden gan ddefnyddio MOSAIC | 3. **Leisure Centres**<br>**Update on the Leisure Review by Just Solutions**<br>Report on profile of Leisure Centre service users by using MOSAIC |

| **Eitemau Ychwanegol** | **Additional Items** |
|---|---|
| 1. **Cymunedau Cryf** (Perfformiad / Cynllun Strategol) | 1. **Strong Communities** (Performance / Strategic Plan) |
| 2. **Digartrefedd**<br>Ymchwiliad Craffu posib | 2. **Homelessness**<br>Possible Scrutiny Investigation |
| 3. **Strategaeth Lletya Pobl Hŷn** (Perfformiad) | 3. **Older People Accommodation Strategy** (Performance) |